# Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Date / Dyddiad: 27 June/Mehefin 2022

Subject / Pwnc: Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i absenoldeb disgyblion a gofrestrwyd mewn ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion

**Gwybodaeth gefndir am Gomisiynydd Plant Cymru**

Prif nod Comisiynydd Plant Cymru yw diogelu a hybu hawliau a lles plant. Wrth ymarfer ei swyddogaethau, mae'n rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae cylch gorchwyl y Comisiynydd yn cwmpasu pob rhan o bwerau datganoledig Senedd Cymru sy'n effeithio ar hawliau a lles plant. Mae CCUHP yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sy'n berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 18 oed. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu CCUHP yn sylfaen ar gyfer llunio pob polisi i blant a phobl ifanc ac mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, wrth ymarfer eu swyddogaethau, i roi 'sylw dyledus' i CCUHP.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Tystiolaeth ychwanegol i Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i absenoldeb disgyblion 27 Mehefin 2022**

**Cefndir:**
Ar gais aelodau'r Pwyllgor yn ystod y sesiwn tystiolaeth lafar ar 16 Mehefin, mae'r Comisiynydd Plant yn anfon peth tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol mewn perthynas â dau faes:

- Tystiolaeth ddienw o'r rhaglen gyfranogol a gwaith achosion ynghylch trefniadau addysgu hyblyg
- Tystiolaeth ynghylch grwpiau o ddysgwyr sy'n wynebu'r risg fwyaf o ran absenoldeb disgyblion

**Trefniadau addysgu hyblyg**

  - Mae gwaith achosion a'n rhaglen o ymgysylltiad cyfranogol yn dangos bod trefniadau addysgu hyblyg, yn achos rhai plant, yn gallu helpu i gynnal eu diddordeb yn eu hysgol a'u hatal rhag dadgofrestru.

- Mae rhai teuluoedd yn adrodd bod dull hyblyg o addysgu, lle mae'r plentyn yn treulio rhan o'r amserlen yn yr ysgol, a rhan gartref, yn golygu bod eu plentyn yn gallu ymdopi'n llawer gwell yn amgylchedd yr ysgol, cael mwy o brofiadau cadarnhaol, a bod yn fwy tebygol o eisiau mynychu'r ysgol. Mae teuluoedd wedi esbonio nifer o resymau am hynny, gan gynnwys niwro-amrywiaeth, anghenion emosiynol neu gymdeithasol y plentyn, pryder ynghylch yr ysgol, neu anghenion meddygol.
- Fel swyddfa rydyn ni'n ymwybodol o enghreifftiau lle mae hyn wedi cael ei gefnogi ar gyfer plant unigol ar sail trefniadau tymor byr neu dymor hwy, ac yn yr achosion hynny roedd dysgu yn yr ysgol wedi cael ei gyfuno â'r plentyn yn mynd â gweithgareddau adref ac yn dysgu gartref, neu â'r plentyn cael cefnogaeth gartref, a'r teulu'n darparu gweithgareddau dysgu neu fugeiliol. Weithiau mae modd darparu hyn dros dro, gyda golwg ar gynyddu presenoldeb yn gyson mewn lleoliad, er mwyn dychwelyd at bresenoldeb amser llawn.
- Mae nifer bach o deuluoedd wedi adrodd wrthyn ni fod hynny wedi golygu bod eu plentyn wedi parhau ar gofrestr lleoliad ysgol, ac y bydden nhw'n dadgofrestru pe na bai'r hyblygrwydd hwn ar gael. Mae tystiolaeth anecdotaidd gan swyddogion mewn awdurdodau lleol a rannwyd gyda'n swyddfa yn cefnogi'r safbwynt bod hynny'n galluogi plant i gynnal eu diddordeb mewn lleoliad yn achos rhai teuluoedd.
- Galluogwyd y math hwn o ddull gweithredu cyfun gan leoliadau hyd yn oed cyn y pandemig. Mae datblygiadau proffesiynol yn ystod y pandemig ynghylch cefnogi dysgu effeithiol gartref yn awgrymu y byddai ystod ehangach o offer, adnoddau a phrofiad y gallai lleoliadau eu defnyddio i wneud hyn.
- Yn flaenorol mae'r rhwystrau i wneud hyn wedi cynnwys llwyth gwaith proffesiynol i athrawon, y modd y mae absenoldeb yn cael ei fonitro a'i adrodd, a hefyd bryderon ynghylch cyfrifoldebau diogelu, yn benodol, yr angen am sicrhau trefniadau diogelu ar gyfer plentyn neu berson ifanc sydd â threfniadau addysgu hyblyg pan fyddan nhw'n cael eu haddysgu oddi ar y safle, ond wedi'u cofrestru'n ddisgyblion yn y lleoliad. O ran diogelu, mae ystyriaethau gwahanol ar gyfer plant ifanc sydd gartref gyda rhiant, a phobl ifanc hŷn nad oes ganddynt o bosib yr un lefel o oruchwyliaeth deuluol. Mae ailddatblygu canllawiau presenoldeb ar hyn o bryd yn gyfle i weithio trwy rai elfennau o hyn, fel bod eglurder ynghylch sut mae diogelu'n cael ei sicrhau.
- Pan fydd trefniadau addysgu hyblyg ar waith, dylid eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn bodloni anghenion y plentyn, ac er eu lles pennaf.

**Ar ba grwpiau gwahanol o blant mae hyn yn effeithio fwyaf? Beth arall mae angen ei wneud?**

- Mwy o broblem i'r **oedrannau hŷn:** Mewn ysgolion uwchradd, mae presenoldeb yn gostwng yn gyson fesul blwyddyn o 88.8% ym Mlwyddyn 7 i 84.5% ym Mlwyddyn 11. Mae angen dull gweithredu gwahanol ar gyfer pobl ifanc hŷn – mae gwaith ieuenctid yn adnodd ac yn fodel arbennig o dda. Bydd modelau cyfranogol o gymorth mawr; mae angen i bobl ifanc fod yn rhan o ganfod eu blaenoriaethau a'r dull gweithredu gorau i'w cefnogi.
- Mae **plant sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim** wedi bod yn sylweddol fwy tebygol o fod yn absennol. Mae data yn dangos bod hynny'n wir yn awr yn ogystal â

chyn y pandemig. Mae data fesul wythnos yn dangos bod cyfatebiaeth rhwng y rhai sy'n dod o deuluoedd incwm isel a lefel is o bresenoldeb – yn yr wythnos oedd yn gorffen ar 20 Mai 2022, roedd 81.6% o'r plant cymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi bod yn yr ysgol, o gymharu ag 88.7% o'r plant oedd ddim yn gymwys – gwahaniaeth o fwy na 7%. Mae'r darlun hwn yn gyson ar draws pob wythnos yn ystod y flwyddyn ddiwethaf: nid oes un wythnos lle mae plant sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o fod yn yr ysgol na'u cyfoedion. Mae'r data hyn yn awgrymu bod angen i ni ddeall absenoldeb rheolaidd fel problem a all fod yn gysylltiedig â thlodi. Mae angen i gamau i atal a mynd i'r afael â thlodi plant fod yn sbardun allweddol wrth leihau absenoldeb o'r ysgol.


- **Yr angen am ddata amserol wedi'i ddadgrynhoi**: er bod data wedi'i ddadgrynhoi yn ôl cymhwysedd i dderbyn Prydau Ysgol am ddim, nid oes modd cael mynediad i ddata wythnosol sydd ar gael i'r cyhoedd ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig. Efallai bod hyn yn ddealladwy oherwydd cyflymdra rhannu'r data, ond rwy'n argymell bod data presenoldeb y flwyddyn academaidd ddiwethaf yn cael ei ddadgrynhoi a'i rannu gyda lleoliadau addysg a gwasanaethau cyhoeddus eraill ar lefel leol a rhanbarthol ymhell cyn dychwelyd i'r lleoliadau ym mis Medi 2022. Bydd hyn yn galluogi gwasanaethau cenedlaethol a lleol i gynllunio yn ôl y nodweddion demograffig a nodwyd, yn ogystal â galluogi mabwysiadu dulliau gweithredu ar lefel leol sy'n sensitif i anghenion penodol grwpiau arbennig: er enghraifft, mae angen dulliau gweithredu gwahanol iawn ar gyfer plant ifanc o gymharu â phobl ifanc hŷn. Hefyd gall awdurdodau lleol weithio gyda grwpiau cymunedol penodol lle bo hynny'n briodol.
- **Lefelau uchel absoliwt o absenoldeb rheolaidd yn achos rhai grwpiau o blant.** Mae adroddiad Meilyr Rowlands'[1] yn dangos bod absenoldebau dysgwyr sy'n Sipsiwn ac yn Deithwyr wedi cynyddu'n sylweddol, er nad yw hynny'n anghymesur fwy na dysgwyr eraill, a gwelir cynnydd tebyg yn achos dysgwyr Prydau Ysgol am ddim a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig. Mae'r cynnydd yn lefelau absenoldeb yr holl grwpiau hyn o ddisgyblion yn dal yn destun pryder sylweddol oherwydd eu lefel absoliwt uchel, a hynny cyn ac ar ôl y pandemig. Mae hyn yn amlygu'r angen am ddulliau gweithredu cymunedol gyda dysgwyr a theuluoedd. Mae'n bosib bod y model ysgol gymunedol yn cynnig potensial i ddatblygu gwaith allgymorth penodol gyda grwpiau cymunedol. Mae fy swyddfa'n ymwybodol o ddulliau gweithredu i gefnogi plant Sipsiwn, Teithwyr a Roma, a gynigir mewn amrywiol leoliadau ar draws Cymru, ac mae'r plant a'r bobl ifanc eu hunain wedi gosod gwerth ar y rhain a'u disgrifio fel elfen bwysig o sicrhau eu presenoldeb.
- **Effeithiau anghymesur y pandemig a'r angen am ddulliau gweithredu sensitif, wedi'u teilwra.** Dangoswyd effeithiau anghymesur y pandemig yn adroddiadau fy swyddfa ar brofiadau plant anabl a phlant o grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd

[1] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2022-04/attendance-review-implications-of-the-covid-19-pandemic-for-school-attendance.pdf

ethnig. Mae’r pandemig wedi effeithio’n arbennig hefyd ar ofalwyr ifanc, gan fod yr amharu ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn aml wedi effeithio ar eu bywyd teuluol a’u cyfrifoldebau gofal – fel y dangoswyd gan waith y pwyllgor a’i rhagflaenodd.[2] Bu effeithiau penodol hefyd ar bobl ifanc oedd â phrofiad o ofal, gan fod amharu ar eu trefniadau cyswllt teulu. Gall fod angen cefnogaeth sensitif, wedi’i theilwra ar blant o bob un o’r grwpiau hyn yng nghyswllt presenoldeb, gyda chefnogaeth i’w llesiant a luniwyd yn benodol ar gyfer eu hanghenion unigol.

- **Plant sy’n ymwneud â Thimau Troseddau Ieuenctid**. Mae lefel uchel o absenoldeb hefyd ymhlith plant sy’n ymwneud â thimau troseddau ieuenctid – gwelwyd hynny yn yr adroddiad arolygu diweddar ar y cyd gan Wasanaeth Prawf Ei Mawrhydi, Estyn ac Ofsted.[3] Mae’r adroddiad hwn yn argymell y dylai Cyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru weithio gyda’r Weinyddiaeth Gyfiawnder i ‘roi sylw i sut mae modd atal anghenion plant TTI sydd heb eu nodi na’u diwallu trwy sicrhau bod arbenigwyr yn asesu, ymyrryd a chefnogi plant agored i niwed yn gynharach.’ Dylai’r Llywodraeth symud y gwaith hwn yn ei flaen, a gweithredu ar ffurf polisi ac ymchwil yn y maes hwn.

Cyflwynwyd gan:



Rocio Cifuentes
Comisiynydd Plant Cymru

[2] https://senedd.wales/media/ixzpwqr5/cr-ld14286-e.pdf

[3] A joint inspection of education, training and employment services in youth offending teams in England and Wales (justiceinspectorates.gov.uk)